

Adroddiad i:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	21 Chwefror 2013
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Aelod Arweiniol dros y Parth Cyhoeddus
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Fflyd
Teitl:	Peilot Cyfyngwr Cyflymder/cylchdroeon

1. Beth yw testun yr adroddiad?

Gosod Cyfyngwr Cyflymder/Cylchdroeon ar gerbydau'r Cyngor sydd dan 3.5 tunnell.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I amlinellu'r manteision posibl o osod dyfeisiau cyfyngu cyflymder/cyfrif cylchdro ar gerbydau ym meddiant y cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Aelodau yn cefnogi'r egwyddor o weithredu prosiect peilot i archwilio dichonoldeb gosod y dyfeisiau hyn ar holl gerbydau'r Cyngor sydd dan 3.5 tunnell.

4. Manylion yr Adroddiad.

4.1 Cefndir

Yn 2011/1, defnyddiodd y Cyngor 616,378 litr o danwydd diesel o fyncers Depo'r Cyngor a gwariodd £110k ar ben hynny mewn gorsafoedd petrol lleol gyda chardiau tanwydd.

Mae'r Gwasanaeth Rheoli Fflyd ers tro wedi ceisio lleihau'r defnydd o danwydd er mwyn lleihau costau a hefyd allyriannau carbon, ond nid oes gwybodaeth ddibynadwy ar y defnydd o danwydd wedi bodoli er mwyn deall beth yw llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant, unrhyw fentrau.

Yn 2010 dechreuodd gwaith ar edrych i mewn i system cyflenwi tanwydd newydd. Ar ôl clustnodi cyllid a phrynu meddalwedd, daeth y system newydd yn hollol weithredol yn Depo Lôn Parcwr, Rhuthun a Depo Parc Kinmel, Bodelwyddan n Ebrill 2012. Mae'r system rheoli tanwydd newydd eisoes yn cynhyrchu gwybodaeth werthfawr ynghylch defnydd unigol o danwydd.

Mae'r Cyngor hefyd yn prynu diesel o orsafoedd tanwydd lleol pan fydd hyn yn fwy effeithlon na defnyddio un o'r ddau ddepo. Mae'r system hon, yn seiliedig ar gardiau tanwydd, wedi cael ei hymestyn i nifer llawer mwy o

orsafoedd yn ddiweddar ac mae'r wybodaeth honno hefyd yn cael ei hymgorffori o fewn systemau rheoli'r Cyngor.

Mae'r wybodaeth ychwanegol hon yn ei gwneud yn bosibl i ni ddadansoddi buddion unrhyw fenter newydd.

4.2 Cyfyngwyr

Un fenter o'r fath yw gosod dyfais ar bob cerbyd a allai reoli cyflymder mwyaf y cerbyd a hefyd pa mor gyflym y gall y peiriant gylchdroi. Mae rheoli'r ddau beth drwy un uned yn rhywbeth newydd a blaengar, a dylai sicrhau arbedion ariannol sylweddol ynghyd â lleihau'r ôl-troed carbon.

Ynglwm fel atodiad 1, mae nifer o enghreifftiau o fudiadau yn y sector preifat a chyhoeddus sydd wedi gweld gwelliannau sylweddol o ran effeithlonrwydd tanwydd yn sgil defnyddio'r dyfeisiau hyn.

Tra bod yna fanteision i gyfyngu cyflymder a chylchdroeon, mae yna hefyd rai materion y bydd yn rhaid ymdrin â nhw drwy hyfforddiant a monitro gofalus yn ystod peilot chwe mis o hyd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y fenter hon yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a fydd yn cefnogi'r flaenoriaeth o foderneiddio yn uniongyrchol.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cost y dyfeisiau i'r peilot fyddai £300 yr un, i gynnwys y gwaith gosod, a'r cyfanswm i 10 uned yw £3,000.

Mae'r gwasanaeth wedi clustnodi arian o danwariant llynedd a fydd yn cael ei ddefnyddio i gynnal y fenter 'gwario i arbed' hon. Bydd y peilot yn cael ei asesu ar ôl chwe mis ond rhagwelir y ceir digon o arbedion yn ystod y flwyddyn ariannol gyntaf llawn i'w rhoi yn erbyn y gost.

Mae'n bosibl tynnu'r offer oddi ar unrhyw gerbyd cyn cael gwared ohono a'i ail-osod ar unrhyw gerbyd newydd.

7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Bu ymgynghori cychwynnol gyda defnyddwyr penodol, ond pe byddai'r Pwyllgor hwn yn cytuno gyda'r argymhellion, byddai'r trafodaethau hyn yn cael eu ffurfioli.

8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Ddim yn angenrheidiol ar hyn o bryd.

9. Beth yw'r risgiau, ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dyma brosiect risg isel ond bydd yn rhaid cynnal rhaglen hyfforddi i sicrhau bod gyrwyr yn deall sut mae cyfyngu ar gyflymder a chylchdroeon yn effeithio ar yrru arferol o ddydd i ddydd.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Erthygl 6.3.4(c) o Gyfansoddiad y Cyngor

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Cludiant

Tel: 01745 839231